Once Upon A Time Nursery
56 Railway Terrace
Llanelli
Carms
SA15 2RH

CIW W130000376

Website
www.llanellinursery.co.uk
Phone
01554 785 173
Email
enquiries@llanellinursery.co.uk

# Polisi Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

| Wales: SGC |
| --- |
| 20.1 - 20.6 |

**Y Ddeddfwriaeth**

Derbyniodd y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015. Mae'r ddeddf yn cyfuno troseddau caethwasiaeth a masnachu ac yn cyflwyno cosbau mwy llym a rheolau dedfrydu.

**Cefndir**

Mae masnachu plant a chaethwasiaeth fodern yn dod yn ffurf ar gam-drin plant sy'n digwydd yn fwy cyson. Mae plant yn cael eu recriwtio, eu symud, cludo ac yna eu hecsbloetio, eu gorfodi i weithio neu eu gwerthu i eraill.

Mae caethwasiaeth fodern yn derm sydd yn cyfuno:

- Caethwasiaeth
- Llafur gorfodol
- Masnachu dynol

Mae dioddefwyr caethwasiaeth fodern hefyd yn debygol o ddioddef mathau eraill o gamdriniaeth megis camdriniaeth gorfforol, rywiol ac emosiynol. Dylai'r polisi hwn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r polisïau canlynol i sicrhau bod pob plentyn, staff, rhieni ac ymwelwyr wedi eu diogelu'n llwyr.

- Diogelu ac amddiffyn plant
- Chwythu'r chwiban
- Cydraddoldeb a chynhwysiant

I oedolyn neu blentyn fod wedi dioddef gan fasnachu pobl rhaid i'r canlynol fod yn bresennol:

- *Gweithred* (e.e. recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn plentyn i ddibenion ecsbloetio)
- *Modd (*bygwth neu ddefnyddio grym, gorfodaeth, cipio, camddefnyddio pŵer neu fod yn agored i niwed)
- *Diben* (e.e. ecsbloetio rhywiol, llafur dan orfodaeth neu gaethwasiaeth domestig, caethwasiaeth, ecsbloetio ariannol, mabwysiadu anghyfreithlon, tynnu organau).

**Arwyddion o Gam-drin**

Dylid gweithredu os yw hi'n ymddangos bod ganddynt rai o'r arwyddion posib yma gan gynnwys, bod dan reolaeth person arall ac yn amharod i ymwneud ag eraill, mai ychydig o eiddo personol sydd gan y dioddefwr a'u bod yn gwisgo'r un dillad bob dydd neu'n gwisgo

dillad anaddas ar gyfer gwaith. Nid yw'r dioddefwr yn gallu symud o gwmpas yn rhydd ac yn amharod i siarad â dieithriaid neu'r awdurdodau gan gynnwys ymddangos yn ofnus, wedi ymgilio, neu'n arddangos arwyddion o gam-drin corfforol neu seicolegol.

**Gweithdrefn:**

Pan fo pryder ynghylch caethwasiaeth neu fasnachu byddwn yn dilyn ein gweithdrefn ddiogelu. Os yw'r plentyn (neu oedolyn) mewn perygl o niwed uniongyrchol yna byddwn yn cysylltu â'r heddlu, fel arall byddwn yn cysylltu â'r awdurdod lleol gan ddilyn y broses gyfeirio fel sy'n cael ei nodi yn y weithdrefn ddiogelu.

Os byddwn yn amau ond nad oedd hi'n bosib cynnal sgwrs gyfrinachol, ni wnawn ni eu hwynebu'n agored na thynnu sylw am y gallai hyn yn hawdd arwain at achosi fwy o niwed iddynt. Yn hytrach, byddwn yn hysbysu'r awdurdodau neu'r sefydliadau perthnasol sy'n gweithio yn y maes hwn.

Os ydych yn y DU ac yn amau bod rhywun yn gaeth, mae gennych sawl opsiwn: Ffonio Llinell Caethwasiaeth Fodern ar 08000 121 700 neu lenwi ffurflen ar-lein.
Ffonio Crimestoppers ar 0800 555 111
Cysylltu â'r Heddlu
Timoedd Gofal Cymdeithasol Plant yr Awdurdod Lleol.